

# Gwers 22 – Esra, Nehemeia a Malachi

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Nehemeia 1–6, 9, 10

**Y**n wahanol i nifer o'i ragflaenwyr, roedd Cyrus yn parchu crefydd y bobl a chyflwynodd raglen o ddychwelyd y rhai a alltudiwyd yn ôl i'w mamwlad, trwy ddweud fod Duw Israel wedi gorchymyn iddo adeiladu 'tŷ iddo yn Jerwsalem yn Jwda' (Esra 1:2). Dychwelodd y cwmni cyntaf yn cynnwys pennau-teuluoedd Jwda a Benjamin, a'r offeiriaid a'r Lefiaid, i Jerwsalem i ailadeiladu'r deml. Saith mis ar ôl dychwelyd dechreuwyd 'ailadeiladu allor Duw Israel er mwyn aberthu poethoffrymau arni...' (Esra 3:2). Cyflwynodd Cyrus holl lestri tŷ'r Arglwydd a ddygodd Nebuchadnesar, i Mithredath y trysorydd. Nid oedd y gwaith yn ddiwrthwynebiad a llwyddodd y gwrthwynebwyr, sef pobl o waed cymysg, i rwystro'r gwaith am bymtheg mlynedd. Ysgogwyd y bobl gan Haggai a Sechareia i ail ddechrau codi'r deml ac ymhen pedair blynedd gorffennwyd y gwaith a chadwyd Gŵyl y Pasg, dathliad arbennig i bob un a oedd wedi eu rhyddhau o'r Gaethglud ym Mabilon.

### Esra

Aeth 70 mlynedd heibio hyd nes 458 CC pan dychwelodd ail gwmni o bobl i Jerwsalem. Erbyn hyn roedd Artaxerxes yn teyrnasu, yntau fel Cyrus yn oddefgar ei agwedd tuag at yr Iddewon. Caniataodd y brenin i Esra gasglu swyddogion a barnwyr a chwmni o dros 1700. Pan gyrhaeddodd Esra Jerwsalem canfu fod llawer o'r dychweledigion gwreiddiol wedi 'cymryd merched y rheini' [Canaaneaidd, Hethiaid, Peresiaid, Jebusiaid ac eraill] 'yn wragedd iddynt hwy a'u meibion, a chymysgu'r hil sanctaidd â phobloedd y gwledydd' (Esra 9:2). Roedd hynny'n groes i'r gyfraith (Deut. 7:1–5), nid oherwydd rhagfarn hiliol, ond am fod arferiad o'r fath yn gallu arwain i eilun-addoliad. Tra'r oedd Esra'n gweddio 'ymgasglodd tyrfa fawr iawn o Israeliaid ato, yn wŷr a gwragedd a phlant, ac yr oedd y bobl yn wylo'n hidl' (Esra 10:1). Sylweddolai'r bobl eu bod wedi pechu yn erbyn Duw a bu iddynt dderbyn cyngor Esra, "Yn awr cyffeswch gerbron Arglwydd Dduw eich hynafiaid: gwnewch ei ewyllys ef ac ymwahanwch oddi wrth bobloedd y wlad a'r merched estron' (Esra 10:11), hynny yw roeddent i ysgaru.


### Nehemeia

Aeth 12 mlynedd heibio ac yr oedd Iddew ieuanc, Nehemeia, yn dal swydd gyfrifol ym mhalas y brenin Artaxerxes, ond er pwysigrwydd ei safle fel trulliad ni fu i Nehemeia anghofio ei bobl. Er i'w bobl dychwelyd i Jerwsalem ers bron i ganrif, ychydig o waith a fu i adfer gogoniant y ddinas, tu hwnt i ail adeiladu'r Deml, yn rhannol oherwydd gwrthwynebiad y gelynion. Cafodd y newyddion trist gan Hanani, ei frawd. Sylwodd y brenin ar dristwch ei was a gofynnodd beth oedd y rheswm. Adroddodd Nehemeia, 'Sut y medraf beidio ag edrych yn drist pan yw'r ddinas lle y claddwyd fy hynafiaid yn adfeilion, a'i phyrth wedi eu hysu â tân?' (Neh. 2:3).

Os mai adfer crefydd a threfn oedd nod Esra, adeiladu muriau ac agor pyrth Jerwsalem oedd nod Nehemeia, ac ymhen ychydig ddyddiau, roedd wedi perswadio'r bobl i ddechrau ar y gwaith ar unwaith. Wynebodd Nehemeia wrthwynebiad o sawl cyfeiriad, hyd yn oed oddi mewn i'r gymuned Iddewig, ond gyda gweddi yn arf, aethpwyd ymlaen gyda'r gwaith, a chwblhawyd y cyfan ymhen 52 o ddiwrnodau, 'oherwydd yr oedd gan y bobl galon i weithio'.

### Malachi

Malachi yw proffwyd olaf yr Hen Destament ac yr oedd yn cydoesi gydag Esra a Nehemeia. Dyddir ei neges tua 460–430 CC, rhyw 80 mlynedd ar ôl i Haggai a Sechareia annog y bobl i ailadeiladu'r Deml, ac erbyn hyn roedd yr aberthau'n cael eu cynnig. Ond roedd y dyddiau'n anodd a chaled. Dychwelodd hen bechodau Israel, anufuddhawyd i orchmynion Duw ac anwybyddwyd ei gynghorion ac yr oedd gan y bobl agwedd ddidaro at addoli a'r safonau a osododd Duw. Serch hynny, meddai Malachi, roedd Duw'n dal i'w caru ac yr oedd am wneud ei ddewis.



Mae'r Brenin Joseia yn atgyweirio Templ Duw yn Jerwsalem.  
Sawl cwpan weli di yn cuddio yn y llun?  
Darllen 2 Brenhinoedd 22:1-7.

# Gwers 22 – Nehemeia ac Esra

## Nehemeia

Nehemeia 1–6, 9, 10

### Gwers 22

Nehemeia ac Esra

### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed

### BEIBL LLIW STORI DUW

Esra'n dod yn ôl i Jerwsalen tud  
207

Gweddi Nehemeia tud 208

### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Ailadeiladu tud 80

### BEIBL LLIW Y PLANT

Ailadeiladu Jerwsalem tud 172

### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Nehemeia tud 110

### Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Pobl Dduw yn dychwelyd adref tud  
249



## I ddechrau

**Gêm:** Rhowch ddarn o bapur i bob plentyn gyda theitl gwaith/swydd benodol arno (e.e. plismon, nyrs, ffermwr, llyfrgellydd). Nid yw'r plant i ddweud wrth neb beth sydd ar y papur. Yna, bydd angen i'r plant ofyn cwestiynau er mwyn ceisio dyfalu beth yw swydd plentyn arbennig (efallai y bydd angen llawer o help gan yr athro i ofyn y cwestiynau iawn!), e.e. wyt ti'n gwisgo gwisg arbennig, wyt ti'n gweithio yn yr awyr agored, wyt ti'n defnyddio offer arbennig?...ac ati.

## Neu, i'r plant lleiaf

Gofynnwch iddynt weithio mewn parau a mynd o amgylch yr ystafell gyfarfod yn rhestru popeth sy'n dechrau gyda'r llythrennau E neu N. Os na all y plant ysgrifennu, gellir gwneud hyn ar lafar, gyda phob pâr yn eu tro yn enwi rhywbeth.

## Yr hanes

Defnyddiwch y Llinell Amser i atgoffa'r plant o'r hyn a oedd wedi digwydd i genedl Israel gyda'r ymosodiadau gan filwyr Assyria, Babilon, Persia. Cafodd yr Israeliaid eu gorfodi i fyw mewn gwlad arall am flynyddoedd lawer wedi i Jerwsalem gael ei choncro, ond yn y diwedd cawsant fynd yn ôl i fyw i Israel. Aethant yn ôl fesul grŵp, ac wedi cyrraedd yn ôl roedd angen rhoi trefn ar Jerwsalem a'r wlad o'i hamgylch (gallwch esbonio fod y deml a'r waliau wedi eu dinistrio). Dewisodd Duw dau ddyn i gynorthwyo gyda'r gwaith. Roedd enw un yn dechrau gydag E (Esra) a'r llall yn dechrau gyda N (Nehemeia). Cyrhaeddodd Esra Jerwsalem cyn Nehemeia ond fe fu'r ddau yn cydweithio wedyn.

Pwy all ddyfalu gwaith Esra a Nehemeia?

Esra – offeiriad (rhywbeth yn debyg i weinidog) yn arbenigo yng nghyfraith Duw.

Nehemeia – bwtler i frenin Persia.

Gan ddefnyddio Beiblau ac adnoddau oddi ar y Rhestr Adnoddau a'r Llinell Amser, cyflwynwch yr hanesion hyn i'r dosbarth (Nehemeia 1:4, 8):

- a. Nehemeia yn clywed am waliau Jerwsalem ac yn cael caniatâd y brenin i ddychwelyd;
- b. Nehemeia yn annog y bobl i gydweithio i godi'r waliau (gellir sôn am wrthwynebiad y gelynion yma hefyd);
- c. Esra yn darllen y gyfraith i'r bobl wedi codi'r waliau.

## Atgyfnerthu'r stori

Mae enwau Esra a Nehemeia yn eithaf dieithr i blant – bydd gweld yr enwau yn ysgrifenedig yn eu cynorthwyo i ymglyfarwyddo â hwy.

Torrwch 3 dalen o bapur maint A4 yn 4 (12 darn o bapur). Ysgrifennwch yr enw Esra ar ddau ddarn, ac enw Nehemeia ar ddau ddarn arall. Ysgrifennwch enwau unrhyw gymeriadau Beiblaidd ar weddilly papurau, e.e. Moses, Noa, Pedr, Ioan ac ati. Plygwch bob darn o bapur yn 4 fel na ellir gweld yr enwau a gosodwch y papurau ar lawr, neu ar ganol y bwrdd. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm. Bydd un plentyn o bob tîm yn chwilio trwy'r papurau gan eu hagor nes iddynt ddod o hyd i enw Nehemeia ac Esra. Wedi darganfod y ddau enw rhaid iddynt eistedd mewn cadair a chodi llaw. Bydd yr athro yn gofyn cwestiwn am y stori ac yn rhoi pwynt am yr ateb cywir. Bydd yn rhaid gosod y papurau yn ôl, eu plygu a'u cymysgu wedi pob cwestiwn.

## Trafod

Bu pobl o bob oed, gan gynnwys plant, yn helpu ac yn cydweithio yn y gwaith o godi'r waliau. Pa ran sydd gan y dosbarth ym mywyd yr eglwys/ yng ngwaith Iesu Grist? A ydynt am gael mwy o ran? Beth?

Bu pobl o bob oed, gan gynnwys plant, yn gwrandao ar Esra yn darllen y gyfraith (y Beibl). Ydy'r plant yn darllen y Beibl ar wahân i'r Ysgol Sul neu'r Oedfa? Pam? Beth fyddai'n eu cynorthwyo i ddarllen y Beibl yn gyson?

## Dysgu adnod

'Gwrandawodd pawb yn astud ar lyfr y gyfraith', (Nehemeia 8:3).

'Roedd pawb yn gwrandao'n astud ar beth oedd sgrôl y Gyfraith yn ei ddweud' - (beibl.net).

Rhowch bapur sgrap neu bapur newydd i bob tîm. Gofynnwch iddynt dorri pobl bach allan o'r papur. Bydd pob tîm (naill ai fesul unigolyn neu fel tîm) yn ail adrodd yr adnod, gan roi un person bach papur o'u blaen bob tro y cwblheir yr adnod. Bydd angen arweinydd/oedolyn ar bob tîm i arolygu eu bod yn dweud yr adnod gyfan ac yn gywir. Wedi oddeutu 2 funud, dylid cyfri'r bobl bach i weld pa dîm sydd wedi dweud yr adnod amlaf.

Neu, beth am ddysgu canu'r pennill 'Dyma Feibl annwyl Iesu' (Caneuon Ffydd, rhif 198)?

## Gêm ychwanegol

Bydd angen car tegan.

Bydd y plant yn pasio'r car tegan o amgylch y cylch. Rhaid i'r plant wrando yn astud oherwydd bydd yr athro yn ail adrodd y gair 'ymlaen', ond yn sydyn bydd yn dweud 'nôl'. Mae hynny'n arwydd fod yn rhaid i'r car droi yn ôl gan 'deithio' (cael ei basio) i'r cyfeiriad arall. Gall yr athro newid y cyfeiriad fel y myn er mwyn ceisio drysu'r plant. Gellir hefyd defnyddio dau gar er mwyn gwneud y gêm yn fwy difyr!

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Gwasanaeth i Dduw tud. 52,  
Esra'n ymroi i astudio'r ysgrythur tud. 53,  
Nehemeia'n ail-adeiladu'r waliau tud. 54,  
Cysegru waliau Jerwsalem tud. 55

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 29: Diwrnod arbennig i Nehemeia

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 316

### Llyfrau Stori

Pam fod Nehemeia'n gweithio mor galed?  
Nehemeia, adeildydd y muriau

